Your Information – Your rights as a Donor

Privacy Statement

Who are we?

The Welsh Blood Service is a Public Authority, a licenced Blood Establishment, and a Division of Velindre NHS Trust.

Personal data we collect

We need to hold and ask for personal data about you in order to create a donor record and to check on your eligibility to donate blood or blood components. Personal data that we may hold about you in your donor record may include:

- Basic contact details, such as name, address, date of birth, contact number
- Donation details, including mandatory blood test
- Travel details

Your donor record may also include special categories of personal data, such as data relating to health or sexual orientation information, race or ethnic origin, genetic, and biometric data.

It is important that we keep your details up-to-date, so please stay in touch.

Security and use of personal data?

We collect personal data about you in order to ensure we can supply safe and high quality blood components for use in the treatment of patients in Wales and beyond. Occasionally we may also use automated donor selection or carry out analysis of information in order to ensure the stocks of blood are maintained at safe levels and that no blood is wasted. We also use your information to ensure we are planning donation clinics in the best way.

We ensure your information is kept in strict confidence, kept secure and safeguarded from unauthorized access, in accordance with Data Protection legislation.

There are occasions where we may have a legal duty to share your personal data, for example for blood safety purposes and/or ensuring we can maintain our service to you or as requirement for the performance of our service. For example, to produce your Donor Card we will share your contact details and blood type with a card supplier. Where we are required to share any personal data with 3rd Parties then this will be undertaken in accordance with Data Protection legislation.

If you register for the purpose of stem cell donation your anonymised data will be transmitted to international registries to find out if you are a potential match for a patient (data such as Tissue Type, age, gender and donor number).

Anyone who receives personal data from us is also under a legal duty to keep this information confidential.

How long do we keep your personal data?

After you donate blood components, the Blood Safety and Quality Regulations and The Human Tissue Authority require that the Welsh Blood Service retains your donation record for a minimum of 30 years.

What is our legal basis for processing your personal data

The Welsh Blood Service processes your personal data in accordance with Data Protection legislation, and where necessary with your consent and/or where there is a legal requirement to do so, such as in the interests of the public, where there is a legal obligation of the service as recognised as a public authority and licenced Blood Establishment and/or the provision of treatment and management of health care services.

Your Rights and your personal data

Under Data Protection legislation:

- You have the right to know how we will use your personal data.
- You have the right to see your donor record, and for this to be provided free of charge. This is known as Right of Subject Access.
- You have the right to object to us making use of your information.
- You have the right to ask for your information to be changed, blocked or erased. Where possible we will seek to comply with your request but we may need to hold or process your personal data in connection with one or more of the Welsh Blood Services legal functions.

Contacting us about your personal data

To exercise all relevant rights or should you have any objections or queries relating to how your personal data is being processed by the Welsh Blood Service, please contact our Data Protection Officer at:

Velindre NHS Trust
Unit 2 Charnwood Court
Parc Nantgarw
Nantgarw
Cardiff
CF15 7QZ

Email: VNHSTInformationGovernance@wales.nhs.uk

For independent advice about data protection, privacy and data-sharing issues, or if you should ever be dissatisfied with the way the Welsh Blood Service has handled or shared your personal data you can contact the Information Commissioners Office (ICO) at:

ICO Wales

Information Commissioner's Office – Wales
2nd Floor, Churchill House
Churchill Way
Cardiff
CF10 2HH

Telephone: 029 2067 8400
Fax: 029 2067 8399
Email: wales@ico.org.uk

ICO Head office

Information Commissioner's Office - Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Telephone: 0303 123 1113 or 01625 545745
Fax: 01625 524510
Website: www.ico.gov.uk

Welsh Blood Service
0800 252266
welshblood.org.uk

Eich hawliau gwybodaeth

Casglu data a gweld eich cofnod Gwasanaeth Gwaed Cymru

gwaedcymru.org.uk

0800 252266

GGC Cyf: 017C Fersiwn 4 04/18

Dilynwch ni

GIG CYMRU NHS WALES
Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Velindre NHS Trust

Eich Gwybodaeth – Eich hawliau fel Rhoddwr

Datganiad Preifatrwydd

Pwy ydym ni?

Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn Awdurdod Cyhoeddus, yn Sefydliad Gwaed trwyddedig, ac yn Is-adran Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

Data personol a gasglwn

Rydym angen cadw a chasglu data personol amdanoch chi er mwyn creu cofnod rhoddwr ac i wirio eich cymhwyster i roi gwaed neu gydrannau gwaed. Gall data personol y gallwn ei gadw amdanoch chi yn eich cofnod rhoddwr gynnwys:

- Manylion cyswllt sylfaenol, fel enw, cyfeiriad, dyddiad geni, rhif cyswllt
- Manylion y rhodd, gan gynnwys prawf gwaed gorfodol
- Manylion teithio

Gall eich cofnod rhoddwr gynnwys categorïau arbennig o ddata personol hefyd. Data yw hyn sy'n ymwneud â gwybodaeth am eich iechyd neu gyfeiriadedd rhywiol, hil neu darddiad ethnig, a data genetig a biometrig.

Mae'n bwysig bod gennym y manylion diweddaraf amdanoch chi, felly cadwch mewn cysylltiad.

Diogelu a defnyddio data personol?

Rydym yn casglu data personol amdanoch chi er mwyn gwneud yn siŵr ein bod ni'n gallu darparu gwaed diogel o ansawdd i'w ddefnyddio wrth drin cleifion yng Nghymru a thu hwnt. O bryd i'w gilydd, gallwn hefyd ddefnyddio proses o ddewis rhoddwyr yn awtomataidd, neu o ddadansoddi gwybodaeth, er mwyn sicrhau bod y stociau gwaed yn cael eu cadw ar lefelau diogel, ac nad oes gwaed yn cael ei wastraffu. Rydym yn defnyddio eich gwybodaeth hefyd, i sicrhau ein bod ni'n cynllunio clinigau rhoi gwaed yn y ffordd orau.

Rydym yn sicrhau bod eich gwybodaeth yn cael ei chadw'n hollol gyfrinachol ac yn ddiogel, a'i bod yn cael ei diogelu rhag rhywun yn cael mynediad heb ganiatâd, yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data.

Bydd adegau ble fydd gennym ddyletswydd gyfreithiol i rannu eich data personol, er enghraifft at ddibenion diogelwch gwaed ac / neu er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cynnal ein gwasanaeth i chi, neu fel sy'n ofynnol ar gyfer perfformio ein gwasanaeth. Er enghraifft, er mwyn creu eich Cerdyn Rhoddwr, byddwn yn rhannu eich manylion cyswllt a'ch math o waed gyda chyflenwyr cardiau. Mewn achosion ble mae'n ofynnol i ni rannu unrhyw ddata personol gyda thrydydd parti, bydd hyn yn cael ei wneud yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data.

Os ydych chi'n cofrestru at ddibenion bôn-gelloedd, bydd eich data dienw yn cael ei drosglwyddo i gofrestri rhyngwladol, i ddarganfod os ydych chi'n cydweddu â chlaf (data fel Math o Feinwe, oedran, rhyw a rhif rhoddwr).

Mae'n ddyletswydd gyfreithiol hefyd ar unrhyw un sy'n derbyn data personol gennym ni i gadw'r wybodaeth hon yn gyfrinachol.

Am ba mor hir fyddwn ni'n cadw eich data personol?

Ar ôl ichi roi gwaed, mae'r Rheoliadau Diogelwch ac Ansawdd Gwaed yn mynnu bod Gwasanaeth Gwaed Cymru yn cadw'ch cofnod am o leiaf 30 mlynedd.

Beth ydy ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol

Mae Gwasanaeth Gwaed Cymru yn prosesu eich data personol yn unol â'r ddeddfwriaeth Diogelu Data, a lle bo angen, gyda'ch caniatâd ac / neu os oes gofyniad cyfreithiol i wneud hynny, er enghraifft er budd y cyhoedd, lle mae rhwymedigaeth gyfreithiol i'r gwasanaeth wneud hynny fel y'i cydnabyddir fel awdurdod cyhoeddus a Sefydliad Gwaed trwyddedig ac / neu ar gyfer darparu triniaethau a rheoli gwasanaethau gofal iechyd.

Eich Hawliau a'ch data personol

Yn unol â'r Ddeddfwriaeth Diogelu Data:

- Mae gennych yr hawl i wybod sut y byddwn yn defnyddio eich data personol
- Mae gennych yr hawl i weld eich cofnod, am ddim. Mae hyn yn cael ei adnabod fel Cais Mynediad i Wybodaeth.
- Mae gennych yr hawl i wrthwynebu inni ddefnyddio'ch gwybodaeth.
- Mae gennych yr hawl i ofyn i'ch gwybodaeth gael ei newid, ei blocio neu ei dileu. Lle bo modd, byddwn yn ceisio cydymffurfio â'ch cais, ond efallai y bydd angen i ni gadw neu brosesu eich data personol mewn cysylltiad ag un neu ragor o swyddogaethau cyfreithiol Gwasanaethau Gwaed Cymru.

Cysylltu â ni ynghylch eich data personol

Er mwyn ymarfer yr holl hawliau perthnasol neu os oes gennych chi unrhyw wrthwynebiad neu ymholiad sy'n ymwneud â sut mae eich data personol yn cael ei brosesu gan Wasanaeth Gwaed Cymru, cysylltwch â'n Swyddog Diogelu Data:

Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Uned 2 Charnwood Court
Parc Nantgarw
Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QZ

E-bost: VNHSTInformationGovernance@wales.nhs.uk

I gael cyngor annibynnol am faterion diogelu data, preifatrwydd a rhannu data, neu os fyddwch chi fyth yn anfodlon â'r ffordd y mae Gwasanaeth Gwaed Cymru wedi ymdrin â'ch data personol neu ei rannu, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - Cymru

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth – Cymru
2il Lawr, Churchill House
Churchill Way
Caerdydd
CF10 2HH

Rhif ffôn: 029 2067 8400
Ffacs: 029 2067 8399
E-bost: wales@ico.org.uk

Prif Swyddfa Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth

Information Commissioner's Office - Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Rhif ffôn: 0303 123 1113 neu 01625 545745
Ffacs: 01625 524510
Gwefan: www.ico.gov.uk

Gwasanaeth Gwaed Cymru
0800 252266
gwaedcymru.org.uk

Your information rights

Collecting data and access to your Welsh Blood Service record

welshblood.org.uk

0800 252266

WBS Ref. 017E Version 4 04/18

Follow us on

GIG CYMRU NHS WALES
Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Velindre NHS Trust